# Cofnodion

## Cwestiynau ac Ymatebion Ffurfiol y Cyngor

Dyddiad: Dydd Llun, 14 Chwefror 2022

1 **Cwestiwn i'r Dirprwy Arweinydd/Aelod Cabinet dros Wasanaethau'r Ddinas: 2022/04 - Trafnidiaeth Gyhoeddus**

**Gofynnodd y Cynghorydd Mogford:**

*"Ymatebodd y Cynghorydd Jeavons: Mae'r gwasanaeth bws Fflecsi ledled Cymru yn wasanaeth gan Trafnidiaeth Cymru. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch ei gwmpas daearyddol at Trafnidiaeth Cymru. Fodd bynnag, roedd yr ardal y gwnaethoch gyfeirio ati eisoes yn cael ei chwmpasu gan wasanaeth Trafnidiaeth Cymunedol sy'n Ymateb i'r Galw, cyn cyflwyno'r gwasanaeth Fflecsi a dyma'r achos nawr hefyd."*

Yn eich ymateb i'm cwestiwn CAUA 13 Rhagfyr 2021 ynghylch cyrhaeddiad y bws fflecsi (gweler y nodyn atgoffa uchod mewn llythrennau italig) dim ond drwy fy ailgyfeirio i Trafnidiaeth Cymru y gwnaethoch ymateb a sôn hefyd am y TYG sydd, yn ôl gwefan CDC (gweler isod) yn wasanaeth cyfyngedig iawn nad yw'n gweithredu yn ardal Langstone, felly unwaith eto, dim ateb i gwestiwn penodol.

Fy nghwestiynau dilynol…

**Cwestiwn 1:** Oni welwch fel rhan o'ch rôl yr angen i lobïo am wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus gwell yng Nghasnewydd a'u hwyluso?


**Cwestiwn 2:** Ydych chi'n credu bod y bws fflecsi a drefnir yn deg i drigolion Casnewydd? Codwyd hyn mor ddiweddar â heddiw yn SWA er enghraifft ( https://www.southwalesargus.co.uk/news/19891062.calls-fflecsi-bus-cover-newports-rural-areas/ )

**Cwestiwn 3:** Beth yr ydych wedi'i wneud yn bersonol yn eich rolau cyfunol fel Dirprwy Arweinydd, aelod Cabinet a chynghorydd Ward i sicrhau bod trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghasnewydd yn addas i'r diben ac yn cyfateb i ddisgwyliadau'r cyhoedd?

Calls for Fflecsi bus to cover Newport's rural areas | South Wales Argus
Yn yr un modd, mae cymunedau mwy gwledig i'r dwyrain o Gasnewydd fel Parc-Seymour, Llandevaud, Penhow a Llanfaches ddim yn rhan o'r dalgylch ar gyfer bws Fflecsi.
www.southwalesargus.co.uk

**Cwestiwn 4:** Beth yw dyfodol y TYG cyfyngedig iawn y soniwch amdano? A oes cynllun i ehangu/contractio'r gwasanaeth TYG nad ydym efallai'n ymwybodol ohono?

Atodiad isod: TYG




**Ymatebodd y Dirprwy Arweinydd:**

*C1* Yr wyf yn parhau i lobïo am well trafnidiaeth gyhoeddus ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol, yn enwedig drwy fy rôl yn Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ac ymgysylltu ag Uned Gyflawni Burns.
Dilëwyd pwerau'r awdurdod i ddarparu gwasanaethau bws yn uniongyrchol yng nghanol y 1980au ar ôl dadreoleiddio o dan lywodraeth y dydd; fodd bynnag, rydym yn parhau i ddarparu cyfleusterau ategol ac yn ddiweddar rydym wedi sicrhau cyllid ychwanegol i fynd i'r afael â darpariaeth gwybodaeth Amser Real yn yr orsaf fysiau ac ymestyn y rhaglen o adnewyddu safleoedd bws.

C2. Diben y treial Fflecsi yw nodi cyfleoedd ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus fwy ymatebol. Mae'r dysgu o'r peilot eisoes yn helpu i nodi galw cudd a diwygiadau posibl i wasanaethau. Un enghraifft yw cyflwyno gwasanaeth boreol i drigolion Casnewydd a gyflogir ym Magwyr. Mae'r peilot yn cael ei ariannu a'i gaffael yn gyfan gwbl gan Trafnidiaeth Cymru, a ddiffiniodd yr ardal weithredu yn y cyfnod prawf hwn.

C3 Fel yr wyf wedi'i amlinellu yn fy ymateb i C1 rydym wedi sicrhau ac yn parhau i sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r rhwydwaith bysus. Er bod dyhead i ddarparu'r lefel uchaf o ddarpariaeth, mae gennym ddyletswydd i gydbwyso anghenion a disgwyliad o fewn adnoddau cyfyngedig, tra'n ystyried gwerth i'r pwrs cyhoeddus. Mae prinder gyrwyr bws cenedlaethol, sy'n cael cyhoeddusrwydd da, hefyd yn ychwanegu cymhlethdod pellach at ddarparu trafnidiaeth gyhoeddus.

C4 Mae'r holl wasanaethau a gefnogir yn cael eu hadolygu'n gyson i adlewyrchu'r galw a'r gwerth i arian cyhoeddus. Mae awdurdodau lleol ar draws y rhanbarth wedi sefydlu adolygiad o ofynion y rhwydwaith bysus yn ddiweddar, gan gynnwys oriau gwasanaeth, amlder a chyrhaeddiad y rhwydwaith. Bydd gwasanaethau TYG yn cael eu cynnwys yn yr adolygiad hwn. Bydd canlyniadau'r cynllun peilot Fflecsi yn darparu tystiolaeth amhrisiadwy i lywio'r adolygiad.